

Y Fynwent

Cyngor Cymuned Llandderfel yw'r Awdurdod Claddu a'r Cyngor Cymuned sydd yn berchen ar y fynwent.

Trefniadau cyn claddu:

1. Rhaid rhoi rhybudd o gladdedigaeth (yn cynnwys claddu llwch) i Swyddog y Fynwent o leiaf dri diwrnod cyn y Gladdedigaeth, gyda'r Rhybudd Claddu ac unrhyw ffurflen berthnasol arall. Ni chaniateir gwasgaru llwch yn y fynwent.
2. Ni cheir claddu ar y Sul nac ar adeg gwyliau statudol.
3. Rhaid talu'r holl ffioedd priodol i Swyddog y Fynwent (neu'r Ymgwymerwr angladdau) gyda'r Rhybudd Claddu (neu gyda chais i osod cofeb) yn unol â ffioedd cyfredol y Cyngor. Fe gedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r rheolau a'r ffioedd fel y bo'r angen.

Plotiau a beddfeini:

1. Ni chaniateir prynu hawl claddu cyfyngedig ond pan fo angen i'w ddefnyddio ar y pryd, ac ni chaniateir agor bedd oni bai fod ei angen o fewn tri diwrnod.

2. Ni chaniateir gosod unrhyw gofeb heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig y Cyngor / Swyddog y Fynwent.

3. Mae cyfrifoldeb am feddrod yn disgyn ar y sawl sydd a'r hawl i gladdu yno neu ei gynrychiolwyr.

4. Perchenogion y cofebion sydd â'r cyfrifoldeb i'w cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.

4.1 Hysbysir perchnogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio cofebion, ac oni atgyweirir hwy o fewn yr amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y gofeb yn ddiogel (Yr hawl wedi ei roi dan Gyfarwyddyd Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977).

4.2 Gall y Cyngor weithredu mewn modd uniongyrchol ynghylch unrhyw gofeb y mae'n credu sydd yn creu risg iechyd a diogelwch o arwyddocâd. Golyga hyn gweithredu heb roi rhybudd ffurfiol ymlaen llaw i'r teuluoedd.

5. Ni chaniateir palu tir bedd na phlannu arno unrhyw blanhigyn. Mae gan y Cyngor hawl i symud a gwaredu unrhyw blanhigyn.

6. Ni chaniateir nodweddion ar y tir o flaen carreg neu gofeb (ac eithrio bedd plentyn). Mae gan y Cyngor hawl i symud a gwaredu unthyw nodwedd.

7. Ni chaniateir i'r cyhoedd ddefnyddio chwynladdwr o fewn ffiniau'r fynwent.

8. Gwaherddir cŵn o'r mynwent, ac eithrio cŵn tywys.

Swyddog y Fynwent sydd yn cyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol ac yn gofalu am y cofnodion statudol:- Mrs Bethan Jones, Hafod y Bryn, Cwmtirmynach, Bala, LL23 7ED 01678 520 632